Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.16 Cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr

Gall cynnwys pobl ifanc dan 18 oed fod yn ddigon i godi ofn ar rai mudiadau ond gall y manteision i'r mudiadau, i bobl ifanc ac i'r gymuned ehangach fod yn hynod o werth chweil.

Manteision i bobl ifanc:

- profiad gwaith
- ffordd o gael geirda
- datblygu sgiliau cymdeithasol
- chwalu rhwystrau rhwng y cenedlaethau
- cael hwyl!
- mynediad at y farchnad waith
- teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- ennill cymwysterau

Manteision i fudiadau

- cyllid
- syniadau newydd a brwdfrydedd
- gonestrwydd (adborth)
- amrywiaeth
- yn gallu uniaethu â chleientiaid
- ffordd o gysylltu â rhwydweithiau gwahanol
- hwy yw gwirfoddolwyr hŷn y dyfodol a gallant ddychwelyd pan fyddant yn hŷn os ydynt wedi cael profiad da gyda'r mudiad

Ceir rhai canllawiau ac adnoddau a argymhellir isod i'ch helpu i gynnwys pobl ifanc yn eich gweithgareddau:

A all pobl ifanc dan 18 wirfoddoli?

Yr ateb byr, syml yw y gallant. Nid oes dim cyfyngiadau cyfreithiol o safbwynt gwirfoddoli ac oedran. Yr ystyriaethau, gan amlaf, yw pa rolau sy'n addas ac ochr ymarferol hyn. Argymhellir eich bod yn trafod yr ymrwymiadau eraill sydd gan bobl ifanc, megis pwysau cyflogaeth a'r ysgol, wrth ystyried faint o amser a roddant i wirfoddoli.

Da o beth hefyd fyddai archwilio unrhyw is-ddeddfau yn eich ardal, gan fod rhai awdurdodau lleol yn mynnu bod siopau elusen yn gwneud cais am drwyddedau cyflogi plant.

Nid yw nifer yr oriau y caniateir i blant eu gweithio mewn wythnos yn berthnasol i waith gwirfoddol ac mewn nifer o achosion mae pobl ifanc yn gwirfoddoli yn eu hamser rhydd, sef gyda'r nos ac ar benwythnosau, ac mae cyfleoedd fel helpu mewn clybiau ieuenctid yn digwydd ar ôl 7pm, ond **er gwybodaeth** dyma'r cyfyngiadau amser a amlinellir yng Nghyfarwyddeb Amser Gweithio Ewrop:

'Ni ddylai nifer yr oriau y caniateir i blentyn eu cwblhau mewn wythnos fod yn fwy na'r rheini a nodir yng nghyfarwyddeb amser gweithio Ewrop. Mae hwn yn ffigur cyfartalog o 48 awr yr wythnos dros gyfnod o 17 wythnos i rai dros 18. Ni chaiff pobl ifanc 16 a 17 oed, fel arfer, weithio dros 8 awr y dydd neu 40 awr yr wythnos, nac ychwaith dros nos rhwng 10pm a 6am, na rhwng 11pm a 7am. O safbwynt pobl ifanc 16 oed sy'n dal yn yr ysgol ni chânt weithio cyn 7am nac ar ôl 7pm yn ystod yr wythnos a dim mwy na 8 awr y diwrnod ar benwythnosau'.

Yswiriant

Bydd rhai sefydliadau'n canfod bod gan eu hyswiriant cyfredol ar gyfer gwirfoddolwyr isafswm oedran o 18. Os felly, cysylltwch â'r cwmni a gofyn i'r oedran gael ei ostwng. Dylai gwirfoddolwyr gael eu hyswirio naill ai dan warchodaeth Atebolrwydd Cyflogwyr neu Atebolrwydd Cyhoeddus a dylai'r polisi yswiriant grybwyll gwirfoddolwyr yn benodol, oherwydd mae'n bosibl na chânt eu cynnwys yn awtomatig. Os oes gwirfoddolwyr iau'n gwirfoddoli yn yr un gweithgareddau â'ch gwirfoddolwyr eraill, fel arfer, ni ddylid bod cost ychwanegol am newid cyfyngiadau oedran eich polisi.

Diogelu a fetio gwybodaeth

Diogelu a recriwtio

Mae'r cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed gofrestru â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Fetio a Gwahardd wedi cael eu hadolygu. **Ni fydd** y cynllun yn mynd rhagddo bellach ond bydd cofnodion troseddol ar lefel briodol yn dal i fod ar gael i'r rheini sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed.

Mae'r Bil Rhyddid yn cynnig deddfwriaeth ar gyfer Cynllun Fetio a Gwahardd symlach a diwygiadau i archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Bydd dyletswydd i archwilio gwirfoddolwyr neu staff cyflogedig mewn amgylchiadau arbennig lle maent mewn cyswllt agos a rheolaidd â grwpiau agored i niwed. Ni fydd unigolyn wedi'i wahardd yn gallu gweithio gyda grwpiau agored i niwed mewn sefyllfaoedd o'r fath, a bydd Datgeliad Manwl (archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol) yn dangos a yw gwirfoddolwr neu

weithiwr cyflogedig ar un neu fwy o'r rhestri gwahardd. Y bwriad yw i archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol gael eu diweddaru'n gyson a'u gwneud yn gludadwy, a bod swyddogaethau'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu cyfuno dan un corff.

Mae'r Bil yn mynd drwy'r senedd ar hyn o bryd, a bwriad y llywodraeth yw y bydd y trefniadau newydd ar waith yn 2012. Yn y cyfamser, gall mudiadau gwirfoddol archwilio gwirfoddolwyr a staff cyflogedig os bydd y rôl yn gymwys (e.e. os yw'n weithgarwch rheoledig dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed).

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau arfaethedig newydd, neu i weld y meini prawf cymhwyso presennol ar gyfer archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, cysylltwch â Uned Cofnodion Troseddol WCVA

Archwiliadau Cofnodion Troseddol

Mae llawer o fudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn defnyddio archwiliadau cofnodion troseddol fel rhan o'u harferion gorau i ddiogelu gwirfoddolwyr ifanc. Mae mudiad yn gymwys i ofyn am ddatgeliad manwl (archwiliad y swyddfa Cofnodion Troseddol) ar gyfer unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n ymgymryd â gweithgarwch rheoledig gydag unigolyn ifanc dan 18 oed. Caiff gweithgarwch rheoledig ei ddiffinio dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed ac mae'n cynnwys gweithgareddau megis dysgu, hyfforddi, rhoi arweiniad, iechyd a gofal personol, yn ogystal â rhai rolau a wneir mewn mannau penodol megis mewn ysgolion a chanolfannau plant. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd gofyn i archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol gael ei gynnal ar yr unigolyn ifanc ei hun, os bydd ei waith gwirfoddoli yn weithgarwch rheoledig gyda phlant eraill neu oedolion agored i niwed.

Fodd bynnag, ni chynghorir i wirfoddolwyr dan 18 wneud gweithgarwch gwirfoddol sy'n rhoi mynediad sylweddol at blant heb oruchwyliaeth.

Amddiffyn plant

Mae'n arfer da sicrhau bod gennych bolisi amddiffyn plant ar waith pan fyddwch yn cynnwys unrhyw un sy'n iau na 18 oed, boed hynny fel gwirfoddolwr neu fel defnyddiwr gwasanaeth. Bydd lefel manylion ac arweiniad eich polisi yn dibynnu ar faint eich mudiad, a'r math o gyswllt sydd gennych â phlant.

Gall y datganiad ei hun fod yn gryno – 1 ochr tudalen A4 o bosib. Mae'r manylion yn eich gweithdrefnau yn hynod bwysig, a dylent ddweud yn glir pa fesurau a gymerwyd a pha fesurau gaiff eu datblygu neu eu gwella. Dylai'r datganiad fod ar gael mewn fformat hwylus a dylid rhoi gwybod i'r plant amdano, yn ogystal â'r rhieni, y gofalwyr, y gwirfoddolwyr a'r staff.

Ystyriwch y meysydd canlynol wrth lunio'ch polisi:

- Pam mae polisi diogelu yn bwysig?
- Egluro bod y polisi yn berthnasol i bob plentyn.
- Datganiad cyfrinachedd.
- Pa drefniadau diogelu sydd ar waith i amddiffyn plant? Ystyriwch feysydd megis lefel a math o oruchwyliaeth, gan ddarparu canllawiau a threfniadau clir sy'n berthnasol i rieni a gofalwyr.
- Sut rhoddir gwybod i'r plant am eu hawliau, a beth dylent ei wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon?
- Sut rhoddir cefnogaeth i weithwyr o ran eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o faterion diogelu?
- Sut caiff y polisi ei roi ar waith?
- Sut bydd y polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu?
- Pe bai honiad yn cael ei wneud, sut yr eir ati i gadw cyfrinachedd?

Penderfynwch pa unigolyn yn eich mudiad fydd yn delio â honiadau, a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant. Dylai pawb yn y mudiad wybod pwy yw'r unigolyn hwn.

Caniatâd Rhieni

Mae'n arfer da cael caniatâd rhiant/ gwarcheidwad ar gyfer unrhyw un dan 18 oed sy'n gwirfoddoli gyda'ch sefydliad. Dylid hysbysu'r rhiant o weithgareddau'r sefydliad ac o'r hyn y bydd eu plentyn yn ei wneud, pryd ac ymhle.

Wrth ddefnyddio ffotograffau o wirfoddolwyr ifanc at ddibenion cyhoeddusrwydd mae angen i chi gael eu caniatâd ac, os ydynt dan 16, caniatâd rhiant/gwarcheidwad i'w defnyddio.

Os yw'r unigolyn ifanc dros 16 ac yn byw'n annibynnol ar rieni neu'r gwasanaethau cymdeithasol caiff roi ei ganiatâd ei hun.

Iechyd a Diogelwch

Wrth gynnwys pobl ifanc dan 18 oed yn eich gweithgareddau mae gennych 'Ddyletswydd Gofal' tuag atynt. Mae angen i asesiadau risg roi ystyriaeth i'r lefel aeddfedrwydd a pheidio â chymryd yn ganiataol y byddai'r un fath â gwirfoddolwr hŷn. Dan y Gyfraith Cyflogaeth rhaid cynnal asesiadau risg unigol i weithwyr ifanc ac er nad yw hyn yn ofynnol i wirfoddolwyr fe'ch cynghorir i'w cynnal ac mae'n eich galluogi i ystyried lefel dealltwriaeth ac aeddfedrwydd pob gwirfoddolwr.

Gwirfoddolwyr Ifanc a Budd-daliadau

Fel rheol gyffredinol, ni ddylai gwaith gwirfoddol effeithio ar fudd-daliadau cyn belled â'i fod mewn sefydliad nid-er-elw ac mai ond mân dreuliau a gaiff eu had-dalu. Os oes unigolyn ifanc ar lwfans ceisio gwaith rhaid iddo ef/hi fod ar gael i fynd i gyfweliad ar 48 awr o rybudd ac yn ymroi i geisio gwaith. Gall y rheini sy'n cael lwfans gofalwyr wirfoddoli cyn belled â'u bod yn dal i allu darparu gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos. I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli a budd-daliadau, gweler y ddolen gyswllt â thaflen wybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac arweiniad cynghori'r CAB ynghylch gwirfoddoli a budd-daliadau yn yr adran adnoddau.

Sicrhau bod pobl ifanc yn deall y rôl ac y gallant ymrwymo

Un myth cyffredin yw bod **pob** unigolyn ifanc yn annibynadwy ac yn anaeddfed. **Pobl** ydy pobl ifanc ac fel pawb arall, nid oes dau'r un fath. Os nad ydych yn sicr yn y cyfweliad a ydynt yn deall y rôl, beth am i chi eu gwahodd i'r hyfforddiant a rhoi cyfle iddynt ddysgu rhagor a dangos yr hyn y maen nhw yn ei ddeall. Allech chi gynnig diwrnod rhagflas fel y gallent ddod i mewn i'r swyddfa neu gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp er mwyn gweld ai hon yw'r rôl iawn iddyn nhw?
Bydd angen i chi roi ystyriaeth i bwysau gwaith ysgol, swyddi ac amser cymdeithasol. Gellir trafod hyn yn ystod y cyfweliad cychwynnol neu hyd yn oed ar ôl yr hyfforddiant fel y gall y darpar wirfoddolwr gael syniad o'r ymrwymiad yr ydych yn chwilio amdano a phenderfynu a fydd yn gallu rhoi hynny.

Syniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc

Os ydych chi'n awyddus i gynnwys gwirfoddolwyr ifanc ond dim ond rolau gwirfoddoli sy'n addas i rai dros 18 oed sydd gennych ar hyn o bryd, efallai yr hoffech ystyried datblygu cyfleoedd eraill.

Beth am annog grŵp i'ch helpu gydag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth? Gallai hyn fod yn eu hysgol a gyda'u cyfoedion neu yn y gymuned ehangach.

Ydych chi'n cael trafferth cadw ochr yn ochr â'r holl dechnoleg sy'n fythol newid? Ydy'r we-fyd-eang yn ymddangos yn rhy ddryslyd i chi? Beth am ofyn i unigolyn ifanc ddangos i chi sut mae'n gweithio? Neu efallai y gall eich helpu i ddylunio cylchlythyr/gwefan neu system weinyddu i ddal i fyny gyda'ch holl wirfoddolwyr.

A oes unrhyw weithgareddau grŵp lle gall pobl ifanc helpu, lle gallent fod dan oruchwyliaeth lawn?

Os bydd unigolyn ifanc yn holi am eich cyfleoedd ond eich bod yn teimlo nad oes gennych ddim byd addas, holwch beth gallant ei wneud neu beth oedd ganddynt mewn

golwg. Yn ogystal â brwdfrydedd ac egni, mae gan bobl ifanc lawer o sgiliau a fyddai'n werthfawr i'ch mudiad, weithiau maen nhw'n anghofio crybwyll y rhain.

Cadw Pobl Ifanc fel Gwirfoddolwyr

Sut y gallwch ddangos i'ch gwirfoddolwyr ifanc eich bod wedi ymrwymo iddynt a'u hannog i barhau i wirfoddoli gyda chi?

Yn gyntaf, ystyriwch pam eu bod yn gwirfoddoli. Ai er mwyn meithrin sgiliau newydd? I wneud ffrindiau? I wella'u CV? I roi rhywbeth yn ôl a theimlo'u bod yn gwneud gwahaniaeth?

Allwch chi helpu i fodloni'r anghenion hyn drwy gynnig hyfforddiant a'r cyfle i ddatblygu eu rolau a chreu rhai newydd? Os na chaiff yr hyfforddiant ei achredu'n allanol gallech ei achredu'n fewnol drwy osod nifer o safonau a chanlyniadau i'r person ifanc eu cyflawni.

Mae digwyddiadau cymdeithasol yn helpu gwirfoddolwyr ifanc i ymgartrefu, i gwrdd ag eraill ac i greu rhwydwaith cymdeithasol.

Mae cynnig geirdaon, os yn briodol, yn dangos eich bod hefyd wedi ymrwymo i'w helpu i wella'u gyrfa neu'u haddysg.

Ac yn olaf, peidiwch ag anghofio rhoi gwybod iddynt eich bod chi ac unrhyw fuddiolwyr yn gwir werthfawrogi eu bod yn rhoi o'u hamser. Gall gweld y gwahaniaeth a wnânt a gwybod y caiff ei werthfawrogi helpu pobl ifanc i ddod yn fwy hyderus, eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned a chael ymdeimlad o gyfrifoldeb drosti. Gall dangos gwerthfawrogiad fod mor syml â dweud diolch, rhoi cerdyn neu dystysgrif, neu mor amlwg â chynnal seremoni wobrwyo i ddathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr.

Sut mae recriwtio gwirfoddolwyr ifanc

Felly, ymhle y gallwch ddod o hyd i'r bobl ifanc sgilgar, ymroddedig hyn? Yr ateb syml yw – ym mhobman. Dyma ond ychydig esiamplau o ffyrdd o ddod o hyd i wirfoddolwyr ifanc.

Mae cysylltu gyda sefydliadau sydd eisoes yn ymgysylltu â phobl ifanc yn ffordd wych o ddechrau. Ysgolion, colegau, prifysgolion, clybiau ieuenctid, unedau Sgowtiaid a Geidiau, rhwydweithiau ieuenctid, canolfannau gwaith, gwasanaethau troseddwyr ifanc, gwasanaethau cymdeithasol a llawer mwy. Holwch a gewch sgwrsio gyda'r bobl ifanc am eich cyfleoedd, ewch â'r holl wybodaeth berthnasol a phecynnau ymgeisio gyda chi i'w dosbarthu iddynt. A wyddoch chi am sefydliadau addysg sy'n cynnig cyrsiau sy'n berthnasol i'ch rolau, lle gall pobl ifanc gael profiad ymarferol o, dywed, y sector iechyd neu o weithio gyda phlant.

Gall arddangosfeydd a digwyddiadau megis digwyddiadau gyrfaoedd a ffeiriau myfyrwyr newydd fod yn gyfleoedd defnyddiol ar gyfer recriwtio.

Defnyddiwch eich canolfan gwirfoddoli leol. Ar hyn o bryd yng Nghymru ceir Cynghorydd Datblygu Ieuenctid ym mhob sir a gallant hysbysebu eich cyfleoedd i bobl ifanc yn yr ardal. I gael manylion eich cynghorydd lleol, ewch i www.volunteering-wales.net.

Ystyriwch eich deunydd cyhoeddusrwydd presennol. A yw eich taflenni'n apelio i bobl ifanc? A yw eich gweithgareddau wedi'u hanelu at wirfoddolwyr hŷn?

A ydych chi mewn unrhyw fodd yn dweud neu'n datgan eich bod yn chwilio am wirfoddolwyr ifanc? Bydd pobl ifanc yn aml yn tybio nad yw eich gweithgareddau wedi'u bwriadu ar eu cyfer nhw oni bai eich bod yn dweud fel arall. Felly dywedwch wrth bobl ifanc am yr hyn rydych yn ei wneud, dywedwch beth yw eich oedran isaf ar gyfer gwirfoddolwyr gan dynnu sylw at y manteision, yn sgil y cyfle, a fydd yn apelio at bobl ifanc.

Deunydd darllen ac adnoddau eraill

Uned Cofnodion Troseddol WCVA
Ffôn: 0800 0197391
cru@wcva.org.uk
www.wcva-cru.org.uk

NACRO – Cynnwys Cyn Droseddwyr mewn Gwaith Gwirfoddol;
www.nacro.org.uk/data/resources/nacro-2006101000.pdf

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) www.nspcc.org.uk

Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar Amddiffyn Plant.
www.charity-commission.gov.uk/supportingcharities/protection.asp

Llywodraeth Cymru – Yn Ddiogel Rhag Niwed: Diogelu Plant mewn Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghymru.
www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/safefromharm

Yr Adran Gwaith a Phensiynau
www.jobcentreplus.gov.uk/JCP/stellent/groups/jcp/documents/websitecontent/dev_015837.pdf
Arweiniad cynghori CAB ynghylch budd-daliadau a gwirfoddoli
www.adviceguide.org.uk/b_volunteering.pdf

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
www.hse.gov.uk/youngpeople/law/index.htm

Rhwydwaith y Coleg Agored (i achredu cyrsiau)
www.ocnwales.org.uk

Gwirfoddolwyr y Mileniwm (i gydnabod oriau gwaith gwirfoddol)
www.wcva.org.uk/volunteering

Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid
www.youthcymru.org.uk/YAA_Home.html

The Legal Guide To Involving Young People As Volunteers gan Clair Bryan ac Esther Thompson, Swyddfa Wirfoddoli Islington, Chwefror 2000. Ar gael gan www.amazon.co.uk

Volunteers and the Law gan Mark Restall, Volunteering England, Mehefin 2005
www.volunteering.org.uk/Resources/publications/volunteersandthelaw.htm

A Guide to Involving Young People in Voluntary Activity gan Mark Jones, SCVS a Rhwydwaith 14-19 Abertawe
www.scvs.org.uk/volunteeringandcitizenship/volunteering/youthvolunteering/14to19.html

Volunteering England
Dalenni gwybodaeth:
www.volunteering.org.uk/Resources/goodpracticebank/Specialist+Themes/Youth+Volunteering/index.htm

Yswirio Gwirfoddolwyr
www.volunteering.org.uk/Resources/goodpracticebank/Information/Insurance+for+Volunteers.htm

Pwy sy'n cael gwirfoddoli?
www.volunteering.org.uk/Resources/goodpracticebank/Information/whoisallowedtovolunteer.htm

Ymwadiad
Canllaw yn unig yw'r wybodaeth a roddir ar y daflen hon. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled a geir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu, neu'n gwrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:09/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk